Gwasanaeth y Tribiwnlys Prisio yng Nghymru

Rhestr Brisio Annomestig 2005

Arweiniad i'n

HYSBYSIAD CYDNABOD APÊL



G/496/04-05
ISBN: 0 7504 3746 4

Ebrill
CMK-22-08-011

Cysodwyd teip 12pt
© Hawlfraint y Goron 2005

BETH YW TRIBIWNLYSOEDD PRISIO?

Mae yna bedwar Tribiwnlys Prisio (TP) yng Nghymru sydd o dan nawdd y Gwasanaeth Tribiwnlys Prisio yng Nghymru (GTPC) ac yn cael eu hariannu gan gronfeydd cyhoeddus Cynulliad Cenedlaethol Cymru (CCC).

Fodd bynnag, mae pob Tribiwnlys yn gyfundrefn annibynnol yn farnwrol sy'n delio ag apeliadau yn ymwneud â Threthi Annomestig, Treth y Cyngor a Threthi Draenio.

Mae'r TP yn annibynnol oddi wrth y Swyddog Prisio (SP) sy'n gyfrifol am roi gwerthoedd trethiannol (GT) ar eiddo a hefyd y Cyngor/Awdurdod Bilio (AB) sy'n gyrru'r biliau treth.

Gwirfoddolwyr a phobl leol yw Aelodau'r Tribiwnlysoedd. Er nad ydynt efallai yn gymwys yn broffesiynol, maent yn derbyn hyfforddiant ac yn brofiadol mewn gwrando apeliadau. Fel arfer bydd tri aelod yn gwrando ar eich apêl [er fe all dau aelod wrando apêl os ydi pawb sydd yn y gwrandawiad yn cytuno i hyn]. Bydd clerc yn cynghori ar faterion trefn a'r gyfraith. Mae'r clerc yn gyflogedig gan y tribiwnlys.

Mae TP yn darparu gwasanaeth rhad ac am ddim, felly ni allant ddyfarnu eich bod yn talu costau. Fodd bynnag, mae'n rhaid i chi dalu eich costau eich hunain i fynychu'r gwrandawiad tribiwnlys. Mae'r Tribiwnlysoedd yn gwrando apeliadau yn lleol, lle bo modd gwneud hynny.

SUT DDERBYNIODD Y TRIBIWNLYS PRISIO YR APÊL?

Yn ôl y gyfraith, mae'n rhaid i'r SP yrru pob cynigiad sydd heb eu cytuno at Glerc y Tribiwnlys, o fewn tri mis o'u derbyn, hyd yn oed os nad oes unrhyw drafodaethau wedi digwydd. Unwaith mae'r TP yn derbyn cynigiad mae'n dod yn apêl.

Os yw eich apêl yn erbyn penderfyniad y SP fod eich cynigiad yn annilys, mae'n rhaid i'r SP ei yrru at y Tribiwnlys o fewn pedair wythnos.

Os oes unrhyw fanylion anghywir yn yr hysbysiad cysylltwch â Swyddfa'r Tribiwnlys ar unwaith.

Os nad ydych yn dymuno mynd ymlaen a'ch apêl mae'n rhaid i chi hysbysu Clerc y Tribiwnlys, yn ysgrifenedig.

BETH SY'N DIGWYDD NESAF?

Er budd rheolaeth effeithiol, mae'r Swyddog Prisio yn gweithredu system sy'n rhaglennu apeliadau i roi rhagrybudd o'r cyfnod trafod: cyn rhestru gan y Tribiwnlys. Mae Tribiwnlys yn gweld y weithred hon gan y SP fel un sydd o gymorth i'r ddau barti a'r Tribiwnlys, wrth brosesu apeliadau yn effeithiol a'r defnydd o adnoddau sy'n cael eu hariannu gan y cyhoedd. Yr amser prysuraf yw yn union wedi ailbrisiad: ac o ganlyniad mae'n bosibl y bydd oedi yn y flwyddyn gyntaf (2005/06) ond rhagwelir y bydd hyn yn gwella mewn blynyddoedd i ddod.

Bydd y SP yn rhoi dyddiad cychwyn i chi, pan fyddent yn dechrau trafod eich apêl, a dyddiad targed pan ddylai eich trafodaethau ddod i ben. Mae apeliadau yn cael eu cytuno erbyn y dyddiad targed, mewn nifer o achosion, ac ni fydd angen gwrandawiad tribiwnlys.

Os na ellir cytuno ar eich apêl erbyn y dyddiad targed, bydd Aelodau'r Tribiwnlys yn disgwyl i chi a'r SP gytuno ffeithiau a thrafod unrhyw dystiolaeth y byddech yn ei chyflwyno yn y gwrandawiad.

Fel rheol bydd y gwrandawiad yn digwydd o fewn tri mis o ddyddiad **targed** y SP. Bydd y Clerc yn rhoi o leiaf pedair wythnos o rybudd i chi o'r dyddiad gwrandawiad

Er mwyn sicrhau fod pawb yn ymwybodol o'r holl faterion, bydd y TP yn gyrru copïau o unrhyw wybodaeth/ohebiaeth berthnasol sy'n cael ei yrru i'r Tribiwnlys, at y partïon.

Cyn i'ch apêl gael ei restru ar gyfer gwrandawiad, mae yna rhai pethau y dylech fod yn ymwybodol ohonynt:-

Mae gwerth trethiannol (GT) ar gyfer eiddo gofnodwyd yn rhestr drethiant 2005 yn cael ei selio ar werth rhentol yr eiddo ar y 1af Ebrill 2003. Mae'r dyddiad yma yn cael ei adnabod fel y **dyddiad prisio blaenorol (DPB)**.

Pan fo SP yn pennu gwerth trethiannol, byddant yn edrych ar y rhent (os oes unrhyw) sy'n cael ei dalu ar eich eiddo ar y **DPB**, a'i gymharu â rhenti ar eiddo cyffelyb, er mwyn gosod lefelau gwerth.

Er fod y SP yn prisio'r rhan fwyaf o eiddo drwy edrych ar y rhenti, maent yn defnyddio dulliau eraill o brisio rhai eiddo.

Bydd y SP yn rhoi manylion eich asesiad trethu i chi, yn cynnwys y mesuriadau a'r gwerthoedd y maent wedi eu defnyddio. Byddent hefyd yn gwirio fod yr holl fanylion yn gywir. Bydd y SP yn dweud wrthych am renti ar unrhyw eiddo y gellid cyfeirio atynt yn y gwrandawiad, o leiaf tair wythnos cyn y gwrandawiad.

GWYBODAETH YNGLYN AG APELIADAU HYSBYSIAD ANNILYSRWYDD

Nodwch os gwelwch yn dda pan fydd Tribiwnlysoedd yn ystyried Apeliadau Annilysrwydd eu bod yn cael eu hatal rhag ystyried cywirdeb y gwerth trethiannol.

Gall y Tribiwnlys edrych ar y rheolau y gallwch wneud cynigiad, yn unig.

Os yw'r Tribiwnlys yn penderfynu fod eich cynigiad yn ddilys, bydd yn ystyried materion prisio yn ddiweddarach.

OES RHAID I MI BARHAU I DALU FY NHRETHI?

Mae'n rhaid i chi barhau i wneud y taliadau ddangosir ar eich bil treth, er eich bod wedi cyflwyno apêl.

BETH SY'N DIGWYDD YNG NGWRANDAWIAD Y TRIBIWNLYS?

Mae'r gwrandawiad yn weddol anffurfiol, a bydd Aelodau'r Tribiwnlys yn ceisio gwneud i bawb deimlo'n gartrefol. Gofynnir i chi gyflwyno eich achos yn ystod y gwrandawiad, a chaniateir i chi ofyn cwestiynau ynglŷn ag unrhyw dystiolaeth y mae'r SP wedi ei gyflwyno. Anfonir taflen i chi gyda'r 'Hysbysiad Gwrandawiad' yn cynnwys rhagor o wybodaeth.

OES RHAID I MI FYNYCHU'R GWRANDAWIAD?

Gall y Tribiwnlys ddelio â'ch apêl drwy ddefnyddio un o'r dulliau canlynol:

- Drwy wrandawiad cyhoeddus (gyda'r partïon neu eu cynrychiolwyr) oni bai fod y Tribiwnlys yn gorchymyn yn wahanol yn sgîl cais gan un o'r partïon.
- Drwy gynrychiolaeth ysgrifenedig gan yr holl bartïon i'r apêl, na chaniateir i'r un ohonynt ymddangos gerbron y tribiwnlys. Os ydych yn dymuno i'ch apêl gael ei benderfynu drwy'r dull hwn **rhaid i chi sicrhau cytundeb yr holl bartïon i'r apêl**. Bydd y Clerc yn eich cynghori ynglŷn â'r dulliau gweithredu a'r cyfyngiadau amser. Gall y tribiwnlys, wrth benderfynu apêl drwy gynrychiolaeth ysgrifenedig, ofyn i'r naill barti neu'r llall

ddarparu tystiolaeth ychwanegol neu i wrando ar yr apêl fel gwrandawiad ffurfiol.

- Drwy **gyflwyniad ysgrifenedig mewn absenoldeb**. Os ydych yn dymuno i'ch apêl fynd yn ei flaen, ond yn methu bod yn bresennol yn y gwrandawiad, ac nad oes unrhyw un i'ch cynrychioli, cewch gyflwyno'ch dadleuon yn ysgrifenedig er mwyn i'r Tribiwnlys eu hystyried yn eich absenoldeb, fodd bynnag bydd y Swyddog Prisio yn mynychu.

Os ydych yn gofyn i ni ddelio â'ch achos drwy gynrychiolaeth ysgrifenedig, ni allwch apelio yn erbyn ein penderfyniad i'r Tribiwnlys Tiroedd.

Gall y Tribiwnlys ddiystyru'r apêl os nad ydych chi na'ch cynrychiolydd yn mynychu'r gwrandawiad.

Rydym yn ymroddedig i drin pob un yn deg. Ni fydd unrhyw un sy'n gwneud apêl yn cael eu trin yn llai ffafriol oherwydd eu hil, lliw, cenedligrwydd, oed, crefydd, tras ethnig, rhyw, rhywioldeb, statws priodasol neu anabledd.

Os oes gennych unrhyw anghenion ychwanegol, er enghraifft, eich golwg, clyw neu symudedd, neu os byddwch angen cyfieithydd, rhowch wybod i Swyddfa'r TP o flaen llaw, os gwelwch yn dda. Fe fyddwn yn gwneud ein gorau i'ch helpu.

YDI'N BOSIB CWYNO YNGLŶN Â'R GWASANAETH A DDARPARWYD?

Os oes gennych gŵyn ynglŷn â'r modd y cafodd eich achos ei drin gan weinyddiaeth y TP, yna:

- Yn gyntaf, dylech ysgrifennu at Glerc y Tribiwnlys, yn y cyfeiriad ddangosir yn ein hysbysiadau.
  Byddwch yn cael eich hysbysu o drefn cwyno llawn y Tribiwnlys yn ymateb y Clerc.
- Os nad ydych yn fodlon gyda'r ymateb, gallwch ysgrifennu at Lywydd y Tribiwnlys, gan gyfeirio'ch llythyr at Swyddfa'r Tribiwnlys.

Gallwch ddefnyddio'r broses yma o gwyno yn erbyn y modd cafodd eich apêl ei ymdrin yn weinyddol gan y Tribiwnlys, yn unig. Ni allwch apelio yn erbyn penderfyniad drwy'r modd hyn. Mae apêl pellach yn erbyn y penderfyniad i'r Llysoedd Uwch.

RHAGOR O WYBODAETH

Mae hysbysiadau yng Nghymru yn cael eu darparu unai yn Gymraeg neu Saesneg, yn ddibynnol ar yr iaith ddefnyddiwyd yn y cynigiad gwreiddiol.

Mae Gwasanaeth y Tribiwnlys Prisio yng Nghymru yn ymroddedig i ddarparu gwasanaeth o safon uchel yn Gymraeg a Saesneg.

Mae'r arweinlyfr hwn yn un o gyfres o daflenni sy'n rhoi gwybodaeth ynglŷn â'r gwasanaeth. Mae ein harweinlyfrau eraill yn cynnwys:

- cyngor cyffredinol ynglŷn ag apelio i'r Tribiwnlys;
- arweinlyfr i'n hysbysiad gwrandawiad; ac
- arweinlyfr i'n hysbysiad penderfyniad.

Rydym hefyd yn cynnig arweinlyfrau ynglŷn â delio ag apeliadau Prisio Treth y Cyngor ac Atebolrwydd Treth y Cyngor. Os ydych yn

dymuno derbyn unrhyw o'r arweinlyfrau hyn, cysylltwch â Swyddfa'r Tribiwnlys yn y cyfeiriad a ddangosir ar ein hysbysiad cydnabyddiaeth.

Ein Cofnodion

Mae gan unrhyw un yr hawl i ymweld â swyddfeydd y TP i edrych ar gopïau o'r agendâu a phenderfyniadau wnaed gan y Tribiwnlys yn y chwe blynedd diwethaf. Agendâu yw rhestr o apeliadau sydd wedi derbyn dyddiad gwrandawiad.

Mae copïau o agendâu a phenderfyniadau y Tribiwnlys ar gyfer apeliadau prisio annomestig yn cael eu dangos ar wefan y GTP hefyd.

Amlinellir cydsynaid GTPC i Ryddid Gwybodaeth, Gwarchod Data a Deddfwriaeth Gwybodaeth Amgylcheddol mewn datganiad polisi a fydd yn cael ei gyhoeddi ar wefan GTPC: copïau ar gael drwy swddfeydd TP.

Gallwch ganfod mwy o wybodaeth ynglŷn â'r Tribiwnlysoedd Prisio ynghyd â chopïau o'r holl arweinlyfrau ar y wefan ganlynol sef:

www.valuation-tribunals.gov.uk [GTP Lloegr]

Mae gwefan dwyieithog yn cael ei ddatblygu yng Nghymru ar hyn o bryd (mae pob TP yn gweithredu yn debyg yn ei hanfod, ond mae yna ychydig o wahaniaethau rhwng Cymru a Lloegr o safbwynt deddfwriaeth).

www.valuation-tribunals-wales.gov.uk [GTP Cymru]

Y prif ddeddfwriaeth sy'n rheoli gweinyddiaeth Trethiant Annomestig yw **Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988** ynghyd â rheoliadau ategol – yn arbennig;

i) Rheoliadau Annomestig (Newid i Restrau ac Apeliadau) offeryn statudol 2005/758.

TRIBIWNLYS AR GYFER DWYRAIN CYMRU

Tribiwnlys Prisio Dwyrain Cymru

22 Gold Tops
CASNEWYDD
NP20 4PG
Ffôn: 01633 266367
Ffacs: 01633 253270
E-bost: eastwales.vt@vto.gsx.gov.uk

Swyddfeydd Prisio:

Wrecsam

Tŷ'r Rhaglyw
Stryd Rhaglyw
WRECSAM
LL11 1PR
Ffôn: 01978 200000

Merthyr Tudful

Cyllid y Wlad
Adeiladau'r Llywodraeth
Stryd y Castell
MERTHYR TUDFUL
CF47 8TX Ffôn: 01685 358000

Ardaloedd: CYNGHORAU (AWDURDODAU BILIO)

CS Powys
CBS Blaenau Gwent
CBS Caerffili
CS Sir Fynwy
CT Casnewydd
CBS Torfaen

Casnewydd

Ail Lawr
Tŷ Clarence
Clarence Place
CASNEWYDD
Gwent NP20 7AA
Ffôn: 01633 205600

TRIBIWNLYS AR GYFER GOGLEDD CYMRU

Tribiwnlys Prisio Gogledd Cymru
Ffordd Dinerth
Llandrillo-yn-Rhos
BAE COLWYN
Conwy
LL28 4UL
Ffôn: 01492 546610 Ffacs: 01492 545935
E-bost: northwales.vt@vto.gsx.gov.uk

Swyddfeydd Prisio:

Wrecsam
Tŷ'r Rhaglyw
Stryd Rhaglyw
WRECSAM
LL11 1PR Ffôn: 01978 200000

Bangor,
Tŷ Glyder
339 Stryd Fawr
BANGOR
LL57 1YA Ffôn: 01978 200000

Ardaloedd: CYNGHORAU (AWDURDODAU BILIO)

CBS Wrecsam
CS Y Fflint
CS Ddinbych
CS Gwynedd
CS Ynys Môn
CBS Conwy

TRIBIWNLYS AR GYFER DE CYMRU

Tribiwnlys Prisio De Cymru
22 Gold Tops
CASNEWYDD
NP20 4PG
Ffôn: 01633 255003 Ffacs: 01633 255004
E-bost: southwales.vt@vto.gsx.gov.uk

Swyddfeydd Prisio:

Caerdydd
Tŷ Rhodfa
Ffordd Tŷ Glas
Llanisien
CAERDYDD
CF14 5GR Ffôn: 02920 806800

Merthyr Tudful
Cyllid y Wlad
Adeiladau'r Llywodraeth
Stryd y Castell
MERTHYR TUDFUL
CF47 8TX Ffôn: 01685 358000

Ardaloedd: CYNGHORAU (AWDURDODAU BILIO)

CBS Pen-y-bont ar Ogwr
CS Caerdydd
CBS Rhondda Cynon Taf
CBS Bro Morgannwg
CBS Merthyr Tudful

TRIBIWNLYS AR GYFER GORLLEWIN CYMRU

Tribiwnlys Prisio Gorllewin Cymru
Llawr Cyntaf
14 Stryd y Brenin
CAERFYRDDIN
SA31 1BH
Ffôn: 01267 235071 Ffacs: 01267 221579
E-bost: westwales.vt@vto.gsx.gov.uk

Swyddfeydd Prisio:

Caerfyrddin
Adeiladau'r Llywodraeth
Teras Picton
CAERFYRDDIN
SA31 3BT Ffôn 01267 322200

Abertawe,
Tŷ Nant
180 Stryd Fawr
ABERTAWE
SA1 1JR Ffôn: 01792 497700

Ardaloedd: CYNGHORAU (AWDURDODAU BILIO)

CBS Castell-nedd Port Talbot
Dinas a Sir Abertawe
CS Caerfyrddin (Rhan 3)
CS Caerfyrddin (Rhan 1 a 2)
CS Ceredigion
CS Sir Benfro

Dylech nodi nad yw'r daflen hon yn cynnwys pob agwedd o apeliadau Treth y Cyngor. Nid yw'r wybodaeth mae'n ei chynnwys yn rhwymo unrhyw Dribiwnlys Prisio, nac yn effeithio ar ddefnydd y rheolau neu ddeddfau perthnasol. Bydd Clerc y Tribiwnlys yn ymateb i unrhyw gais rhesymol am gyngor ynglŷn â'r drefn cyn dechrau'r gwrandawiad.